



Carchar Brynbuga a Phrescoed

Adroddiad Blynyddol

2013 - 2014

Rhan 1

RÔL STATUDOL Y BYRDDAU MONITRO ANNIBYNNOL

Mae Deddf Carchardai 1952 a Deddf Lloches a Mewnfudo 1999 yn mynnu bod pob carchar ac IRC yn cael eu monitro gan Fwrdd annibynnol, a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref / Gweinidog dros Gyfiawnder, o blith aelodau o'r gymuned y mae'r carchar neu'r ganolfan wedi'i lleoli.

Mae'r Bwrdd yn benodol gyfrifol am: -

1. Fodloni ei hun ynghylch y driniaeth drugarog a theg o'r rhai a gedwir yn y ddalfa o fewn ei garchar, ac ystod a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau.
2. Rhoi gwybod ar unwaith i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu unrhyw swyddog y dirprwyodd awdurdod iddo fel y mae'n ei farnu'n briodol, am unrhyw bryderon sydd ganddo.
3. Adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai sydd yn y ddalfa.

Er mwyn galluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl i gael mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, a hefyd at gofnodion carchar.

Rhan 2

CYNNWYS

Disgrifiad o'r Carchardai	Adran 3
Crynodeb Gweithredol	Adran 4
Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Adran 5
Addysg, Dysgu a Sgiliau	Adran 6
Gofal Iechyd ac Iechyd Meddwl	Adran 7
Gweithgarwch pwrpasol	Adran 8
Ailsefydlu	Adran 9
Carcharu Mwy Diogel	Adran 10
Sefydlu / Derbyn	Adran 11
Rhaglenni	Adran 12
Amser allan o'r Gell	Adran 13
Enghreifftiau o Ragoriaeth	Adran 14
Meysydd o Bryder	Adran 15
Ystadegau Bwrdd	Adran 16

Adran 3

DISGRIFIAD O'R CARCHARDAI

3 Mae Carchar Brynbuga a Phrescoed wedi'i leoli ar dri safle. Carchar Categori C yn nhref Brynbuga, carchar Categori D yn ardal Prescoed a Fferm Cilwrgi, sydd wedi'i lleoli ychydig filltiroedd o Brescoed. Mae carcharorion yn cael eu cefnogi gan Swyddogion Personol, Gweithwyr Achos, Adran Seicoleg, Tîm Camddefnyddio Sylweddau, y Gaplaniaeth, Adran Gofal Iechyd a Thîm Ailsefydlu. Mae Gofal Iechyd yn cynnig cyfleuster gofal dydd, ond nid oes ganddo unrhyw welyau Gofal Iechyd ar gyfer anghenion triniaethau sy'n parhau.

3.1 Agorodd Carchar Brynbuga yn 1844. Trwy gydol ei fodolaeth, mae wedi darparu amrywiaeth o gyfundrefnau ac mae ar hyn o bryd yn garchar Categori C i ddynion, sy'n cadw carcharorion agored i niwed. Yn Ebrill 2013 ei lety ardystiedig tybiannol (CNA) oedd 266, ac yn Nhachwedd 2014 cynyddodd y cynhwysedd hwn i 272. Mae'r ddau safle â chynlluniau am ragor o gynnydd.

Amcanion y carchar yw cadw carcharorion yn sicr ac yn ddiogel, er mwyn darparu sefydliad trefnus lle caiff carcharorion eu trin yn drugarog a gyda gwedduster a pharch. Bwriad y gyfundrefn strwythuredig yw paratoi'r carcharorion ar gyfer eu rhyddhau'n ddiogel, lleihau'r risg o aildroseddau a chyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas.

3.2 Mae Carchar Prescoed wedi'i leoli mewn cefn gwlad agored tua 3 milltir o dref BRYNBUGA. Mae'n garchar Ailsefydlu Categori D ac fe'i agorwyd yn 1939. Yn Ebrill 2013, roedd y CNA yn 213, erbyn Ebrill 2014, cododd hyn i 230.

Mae'r gyfundrefn ym Mhrescoed wedi cael ei llunio ar gyfer adsefydlu ac addysgu, trwy gynllun dedfryd a chynllun adsefydlu strwythuredig, er mwyn hyrwyddo gostyngiad mewn risg o garcharorion yn aildroseddu pan ddychwelant i'w cymunedau. Mae cyfleoedd am addysg a lleoliadau gwaith gydag adnoddau'n cael eu dyrannu ar gyfer ailsefydlu carcharorion. Mae hyfforddiant mewn amrywiaeth o ddiwydiannau a gweithgareddau wedi'i hen sefydlu'i hun ym Mhrescoed ac mae'n dal ati'n gyson i gael lleoliadau gwaith addas.

Gall y Bwrdd ddweud fod dwy ddihangfa a dau fethiant rhyddhad ar drwydded amodol wedi digwydd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae hyn yn adlewyrchu cyfradd llwyddiant y mae'r carchar yn falch ohoni wrth reswm, yn enwedig wrth ystyried faint o drwyddedau dros dro a roddir bob blwyddyn.

Mae pob carcharor sy'n ffoi'n dychwelyd i amodau caeedig, caiff absenoldebau anawdurdodedig er-aill eu barnu a gweithredir cosbau cadarn. (e.e. Colli breintiau)

3.3 Mae Carchar Fferm Cilwrgi'n cynnwys 460 o erwau, gyda 160 o'r erwau hyn yn goetiroedd, a hefyd amrywiaeth o adeiladau allanol. Mae gan y fferm fuchesau godro ffyniannus (119) a haid o ieir (25). Mae gan Gilwrgi nifer o gyfleoedd hyfforddi i garcharorion, e.e. parlwr godro / rheoli gyr, hwsmonaeth anifeiliaid, technegau ffermio â, gweithgareddau melin lifio, sgiliau sylfaenol peiriannau fferm ac ati. Nifer cyfartalog y carcharorion sy'n gweithio ac yn hyfforddi ar y fferm yw 17. Nifer cyfartalog y carcharorion sy'n gweithio neu'n hyfforddi ar y fferm yw 25. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae cynhyrchiant a gweithgaredd y fferm wedi cael eu heffeithio gan y cyfyngiadau achlysurol yn sgil TB. Mae'r Fferm wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSI).

Adran 4

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 4.1 Yn unol â pholisïau cenedlaethol, mae Carchar Brynbuga a Prescoed wedi profi newid sylweddol er mwyn bod mor effeithlon ag sy'n bosibl gyda chyllidebau wedi'u hail-flaenoriaethu. Yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae'r Bwrdd IMB wedi arsylwi ar yr effaith y mae'r newidiadau hyn wedi'u cael, ac yn fodlon iawn bod staff wedi gallu lleihau unrhyw ganlyniadau negyddol mewn ffordd effeithiol iawn. Bydd cynlluniau i drosglwyddo rhai swyddogaethau yn allanol, sydd ar hyn o bryd yn cael eu trin yn fewnol, yn cysylltu â'r newidiadau parhaus a bydd y Bwrdd yn monitro cynnydd ac yn edrych i amharu cyn lleied â phosibl ar boblogaethau'r carchar. Mae'r gostyngiad mewn staff wedi dylanwadu ar weithdrefnau'r carchar tra ceisir cynnal safonau gofal carcharorion, a pharatodau i'w rhyddhau.
2. Mae Brynbuga a Phrescoed wedi newid Llywodraethwr yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae hyn yn anochel yn peri ymdeimlad o ansicrwydd, yn enwedig gan fod y sefydliadau wedi bod yn gweithio drwy raglen wedi'i threfnu o newid, dan arweiniad y Llywodraethwr sydd wedi ymadael. Mae'r trawsnewidiad o un i'r llall wedi mynd yn dda er bod newid amlwg yn yr arddull rheoli. Mae aelodau o'r Bwrdd yn teimlo bod gan y carcharor(ion) ddyfodol cadarn.
3. Roedd y ddau garchar yn destun Arolygiad Carchar heb eu trefnu. Roedd y canlyniad yn dda iawn, gyda'r ddau safle'n cael sgôr uchel. (Brynbuga 4434) Prescoed 4444)
- 4 Mae'r Bwrdd wedi colli 4 aelod profiadol iawn eleni, ac fe gollir eu doethineb, fodd bynnag, mae gennym fwrdd eithaf ifanc yn weddill (gyda recriwtio ar fin digwydd), sydd wedi ymateb i'r her a chynnal eu dyletswyddau gydag ymrwymiad a diwydrwydd.

Adran 5

CYDRADDOLDEB A CHYHNHWYSIANT

Trwy gydol y flwyddyn, mae Brynbuga a Phrescoed wedi cynnal Cyfarfodydd Amrywiaeth a Chydraddoldeb chwarterol. Mae'r pwyllgor yn monitro ac yn rheoli materion sy'n ymwneud â thriniaeth gyfartal carcharorion ac yn cynnwys Llywodraethwr, uwch aelodau eraill o staff, y Swyddog Gwedduster (Ymgynghorydd Cydraddoldeb), aelod IMB, carcharor sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol yn y carchar a'r swyddog gweinyddol.

Mae digwyddiadau yn y cyfnod rhwng y cyfarfodydd yn cael eu trafod ynghyd â'r penderfyniadau rheoli a gymerwyd , pwyntiau gweithredu dilynol a gymerwyd, unrhyw welliannau y gellid eu gwneud, ynghyd â chanlyniadau unrhyw bwyntiau gweithredu blaenorol.

Mae cofnodi a monitro holl faterion cydraddoldeb yn gywir yn cael eu monitro gan y Swyddog Gwedduster a'r Swyddog Cydraddoldeb. Mae'r strwythur hwn ar fin newid, felly, bydd y drefn newydd yn cael ei harsylwi'n ofalus gan yr IMB oherwydd fe allai unrhyw ostyngiad o uwch reolwyr yn y Cyfarfod ostwng ansawdd ac amseroldeb unrhyw benderfyniadau a wneir.

Adran 6

ADDYSG, DYSGU A SGILIAU

Mae'r ddau Garchar yn darparu amrywiaeth o addysg a sgiliau dysgu, sy'n cynnwys: - TGCh, Cymraeg, Llythrennedd a Rhifedd, Gosod Briciau, Gwaith Saer, Plastro, Celf, Gwaith Barbwr a Choginio. Ym Mhrescoed mae dewis Dysgu a Sgiliau llawn-amser.

I garcharorion Prescoed, mae nifer o gyfleoedd i weithio'r tu allan e.e. mewn siopau elusen Gwaith Gwirfoddol Awdurdod Lleol ac ati. Mae nifer cyfyngedig o gyfleoedd i ddilyn hyfforddiant mewn colegau lleol.

Adran 7

GOFAL IECHYD AC IECHYD MEDDWL

Yn ystod y flwyddyn, mae Gofal Iechyd wedi mynd trwy gyfnod sylweddol o newid. Fe drosglwyddodd y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau iechyd o wasanaeth y carchardai i'r Bwrdd Iechyd Lleol, sy'n atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru, sydd wedi datganoli pŵer dros ddarpariaeth iechyd.

Gan dderbyn y problemau cychwynnol arferol, aeth y trosglwyddiad yn dda. Mae'r newid wedi gol-ygu nad ydyw nyrsys Iechyd Meddwl Sylfaenol a Phenaethiaid Iechyd Fforensig yn y carchar mwyach. Erbyn hyn, mae'r holl wasanaethau yn cael eu darparu ar sail "mewngymorth" gan y Bwrdd Iechyd Lleol (BILI).

Mae rheoli meddyginiaeth hefyd wedi newid i weithdrefn debyg i du allan i'r carchar. Erbyn hyn mae carcharorion i gymryd cyfrifoldeb personol ac yn gwneud eu harchebion eu hunain ar gyfer ail-bresgripsiwn. Mae hyn wedi cael gwared ar wastraff a hefyd yn paratoi carcharorion ar gyfer bywyd tu allan i'r carchar. Mae presgripsiwn ar gyfer lladdwyr poen cryf a meddyginiaethau eraill a allai fod yn agored i'w masnachu a'u camddefnyddio erbyn hyn yn cael eu rhoi ar bresgripsiwn yn wythnosol, yn hytrach na bob mis. Er bod hyn yn golygu bod mwy o waith ar gyfer y tîm fferylliaeth a nyrsio, mae'n effeithiol.

Mae darparu meddygon i'r carchar hefyd wedi newid o feddyg teulu lleol, i Feddygfa sy'n cyflenwi rota o feddygon. Mae hyn wedi arwain at weithredu mwy effeithiol. Mae gwasanaeth arferol ar gyfer cefnogi cyflyrau iechyd cronig (e.e. diabetes, asthma, clefyd y galon cronig ac ati) yn parhau, yn ogystal â rhaglenni sgrinio ar gyfer canser y coluddyn a brechiadau ffliw.

Rhoddodd Arolygiad HMCIP diweddar adroddiad cadarnhaol ar Ofal Iechyd Brynbuga a Phrescoed, ac mae'r ychydig argymhellion a wnaed eu wedi'u gweithredu. Mae carcharorion yn gadarnhaol am y gwasanaeth a gynigir gan Ofal Iechyd ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y nifer isel o geisiadau IMB a dderbyniwyd ar faterion gofal iechyd.

Adran 8

GWEITHGARWCH PWRPASOL

Ym Mrynbuga mae amrywiaeth o weithgarwch pwrpasol dan do fel glanhau, arlwyo, paentio ac addurno, a swyddogaethau trefniadol eraill. Mae gweithgareddau awyr agored yn cynnwys garddio ac ailgylchu, ac mae'r carchar yn falch o safonau uchel ei erddi.

Ym Mhrescoed, mae carcharorion yn gallu cynnal amrywiaeth ehangach o weithgareddau awyr agored, yn cynnwys gwaith Stad a Fferm, Hwsmonaeth Anifeiliaid a dyletswyddau godro.

Nid yw'r amrywiaeth o weithgarwch pwrpasol wedi newid fawr ddim dros y deuddeg mis diwethaf, ond bydd gweithdrefn newydd yn cael ei chyflwyno yn 2014.

Adran 9

AILSEFYDLU

Caiff lleoliadau gwaith allanol (Prescoed) eu rheoli gan y Tîm Lleoliadau Cymunedol sy'n cadw rhestr swyddi gwag a rhestr aros o garcharorion. Gall nifer o leoliadau arwain at waith cyflogedig ar ôl cael eu rhyddhau, yn enwedig i garcharorion ar leoliadau gwaith taledig Cam 2. Mae carcharorion a lleoliadau'n destun asesiadau risg. Mae nifer o garcharorion Prescoed ym Mwyty Clinks Carchar Caerdydd; mae hyn yn rhoi amrywiaeth o brofiadau gwaith ac yn rhoi sgil defnyddio i'w defnyddio ar unwaith ar ôl eu rhyddhau.

Ym Mrynbuga, mae'r uned Rheoli Troseddwy'r yn canolbwyntio ar leihau aildroseddu trwy ddefnyddio cynllunio dedfrydau i adnabod anghenion ac ymyriadau priodol a/neu raglenni triniaeth. Ym Mhrescoed, mae'r mwyafrif o ymyriadau â chysylltiad agos â'r defnydd o ryddhau ar drwydded dros dro. Mae'r llwybrau ar gyfer cynnydd yn canolbwyntio ar nodi risgiau ac anghenion ac ymgysylltu ag asiantaethau eraill (e.e. MAPPA, Prawf ac ati), gyda'r bwriad o leihau'r risg o aildroseddu.

Adran 10

CARCHAR MWY DIOGEL (Carchar Brynbuga)

Yn ystod y cyfnod adrodd, nid oes unrhyw farwolaethau wedi bod yn y ddalfa, ac o ganlyniad, ni fu unrhyw gwest.

Yn ystod y cyfnod adrodd, newidiodd Cyfarfodydd Carchar Mwy Diogel o bob mis i bob chwarter. Mae'r IMB yn mynychu'r cyfarfodydd hyn ac yn gallu monitro'r materion lles sy'n codi o fewn y carchar. Mae aelod o'r Samariaid hefyd yn bresennol ac mae "Gwrandäwr" yn mynychu'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd. Mae rhwng naw a deg o Wrandawyr ym Mrynbuga (yn dibynnu ar yr unigolion sy'n cael eu rhyddhau ac ati), ac maent yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i garcharorion sydd angen cymorth emosiynol. Mae'r canlynol yn cynrychioli tri mis yn ystod y cyfnod adrodd.

Nifer yr oriau gwrando	326.45
Nifer yr oriau y defnyddiwyd cell y gwrandäwr	170.05
Meddyliau hunanddinistriol	14
Meddyliau / teimladau hunan-niweidiol	25
Ystyriwyd mewn trallod mawr	150
Galwadau cyffredinol	82

Mae'r Bwrdd yn teimlo bod Carchar Mwy Diogel yn cael ei fonitro'n dda yng ngharchar Brynbuga

GWAHANU

Nid yw Brynbuga na Phrescoed yn cefnogi Uned Wahanu

Adran 11

SEFYDLU/DERBYN

Mae'r holl garcharorion sy'n cyrraedd Brynbuga a Phrescoed wedi cael eu trosglwyddo o garchar arall, nid oes neb yn cael eu derbyn yn syth o'r llysoedd. Caiff carcharorion newydd eu derbyn ar amrwydol adegau o'r dydd a gweinyddir y gwaith gan staff pwrpasol.

Mae ymsefydlu'n tueddu i fod ynghylch y cyfundrefnau yn y naill garchar neu'r llall, yn hytrach na mynd i mewn i'r system garchardai am y tro cyntaf. Ym Mhrescoed, mae ymsefydlu'n digwydd dros yr wythnos gyntaf o gyrraedd yno a chaiff ei gyflwyno'n bennaf gan garcharorion eraill a ddetholwyd, gyda swyddog yn goruchwyllo. Mae aelodau o'r Bwrdd yn aml yn gweld y sesiynau hyn a dywedant eu bod yn cael eu cyflawni gyda sylw dyledus i reolau carchar a pharodrwydd gan garcharorion i roi adroddiad teg a chywir o'r wybodaeth ofynnol.

Adran 12

RHAGLENNI

Brynbuga

Mae'r Rhaglenni Triniaeth i Droseddwy'r Rhyw (SOTP) canlynol yn cael eu cyflawni yng Ngharchar Brynbuga.

Rhaglen Trin Troseddwy'r Rhyw Craidd (CSTOP) – dwy raglen yn cael eu cyflwyno bob blwyddyn ar- iannol ar gyfer grwpiau o naw o ddynion. Mae pob rhaglen yn chwe mis o hyd ac yn rhaglen sylfaen i ddynion sy'n risg canolig ac uwch.

Y Fi Newydd (BNM) - un rhaglen yn cael ei chyflwyno bob blwyddyn ac mae'n rhaglen lefel sylfaen gyfatebol i ddynion sy'n cael eu herio yn ddeallusol. Mae'r rhaglen hon yn cael ei chyflwyno i grwpiau o wyth o ddynion.

Byw fel y Fi Newydd (LNM) – mae'r rhaglen hon yn newydd eleni ac yn disodli'r rhaglen atgyfnerthu i ddynion sydd wedi'u herio'n ddeallusol. Mae'n rhaglen dreigl, gyda hyd at wyth o ddynion yn rhan ar unrhyw un adeg.

Rhaglen Rhyw Iach (HSP) - mae hon yn rhaglen unigol i ddynion sydd ag anghenion triniaeth benodol â diddordebau rhywiol. Mae yna chwe lle ar hyn o bryd, gyda'r bwriad y bydd y nifer yn codi yn y dyf- odol.

Rhaglen Trin Troseddwy'r Rhyw Estynedig (ESOTP) - Mae hon yn rhaglen chwe mis wedi'i thargedu at ddynion sydd wedi cwblhau'r rhaglen graidd yn llwyddiannus. Mae'r dynion a ddewisir ar gyfer y rhaglen hon yn tueddu i fod yn risg ystadegyn uchel neu uchel iawn ac sydd ag anghenion triniaeth rhagorol. Mae naw dyn yn rhan o'r rhaglen.

Prescoed

Nid oes unrhyw ymyriadau'n seiliedig ar grŵp yng Ngharchar Prescoed bellach. Mae adnoddau cyfyngedig ar gael ar gyfer gwaith unigol arall ar y naill safle a'r llall, ac o ganlyniad, fe'i cynigir os caiff ei gyfarwyddo gan y Bwrdd Parôl yn unig.

Adran 13

AMSER ALLAN O'R GELL

08.00 - 18.00

Symudiad rhydd o wirio'r gofrestr am 06.00 o'r gloch
Dychwelyd i'w Uned eu hunain erbyn 22.00 o'r gloch

Adran 14

ENGHREIFFTIAU O RAGORIAETH

1. Bu newid mawr mewn polisi yn ymwneud â llywodraethu a rheoli ROTL. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu rheoli'n dda gyda chyn lleied o darfu ag sy'n bosibl. Aeth ymrwymiad y Llywodraethwr i gyfathrebu'n dda gyda staff a charcharorion gryn ffordd i leihau sion a gwybodaeth anghywir felly ni heriwyd y rheolau newydd yn ei herio.
2. Mae ansawdd y crefftwaith a wneir yn y gweithdai ym Mrynbuga (gwaith coed, gosod briciau a phlastro) yn ardderchog. Mae carcharorion yn cael eu cynnwys yn dda ac mae eu cynnyrch yn cael ei fonitro'n ofalus. Mae'n dda gweld bod y siop gwaith coed yn gallu cymryd comisiynau o'r tu allan i'r carchar, ac oherwydd ansawdd uchel eu gwaith, mae'n gwella enw da'r carchar yn y gymuned leol.
3. Mae'r carcharor(ion) yn gweithio'n galed i hyrwyddo a hwyluso cysylltiadau teuluol cryfach fel rhan o baratoi carcharorion ar gyfer eu rhyddhau. Mae Diwrnodau Teulu'r Carchar yn parhau ym Mhrescoed, mae Brynbuga wedi trefnu Diwrnodau i'r Teulu i Garcharorion am Oes, ac mae'r ddau safle yn cymryd rhan mewn "Story Book Dads". Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar garcharorion.
4. Nid yw cynnal safonau uchel drwy gydol cyfnod â llawer o newidiadau yn hawdd, ac mae'r cynnydd a wnaed yn y ddau garchar yn dyst i'r rheolwyr, staff a charcharorion.

Adran 15

MEYSYDD O BRYDER

1. Mae carcharorion ym Mrynbuga'n dal i orfod bwyta'u prydau bwyd yn eu celloedd. Mae oedran a chynllun y carchar yn gwneud hyn yn ddealladwy ond mae'n dal yn anfodddhaol mewn oes fodern.
2. Mae'r gostyngiad yn y lefelau staffio yn gadael ychydig iawn o lacrydd yn y system i ddarparu ar gyfer digwyddiadau na ellir eu rhagweld. Er enghraifft, os yw carcharor ym Mrynbuga yn gorfod mynd i'r ysbyty, gall darparu hebryngydd cyson effeithio'n ddifrifol ar gyfundrefnau eraill yn ôl yn y carchar. Er bod popeth yn mynd yn dda, mae'r gweithdrefnau presennol yn ddigonol, ond mae yna bryder y gallai digwyddiad difrifol arwain at ganlyniadau mawr. (Mae'r sylw hwn yn dangos yr angen am ddiweddariadau rheolaidd ar gynllunio wrth gefn ac ymarferion.)
3. At ei gilydd, nid oes gan y Bwrdd unrhyw bryderon difrifol gyda'r ffordd mae Brynbuga a Phrescoed yn gweithredu.

Adran 16

<u>YSTADEGAU'R BWRDD</u>	
Nifer yr aelodau a argymhellir ar gyfer y Bwrdd	15
Nifer aelodau'r Bwrdd ar gychwyn y cyfnod adrodd	15
Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	11
Nifer yr aelodau newydd yn ymuno o fewn y cyfnod adrodd	2
Nifer yr aelodau'n gadael o fewn y cyfnod adrodd	4
Nifer Aelodau'r Bwrdd yn ystod y cyfnod adrodd	12
Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r Sefydliad	414
Cyfanswm nifer yr Adolygiadau Gwahanu	Amh.
Cyfanswm nifer yr Adolygiadau Gwahanu a fynychwyd	Amh.
Dyddiad Adolygiad Blynyddol Perfformiad Tîm	18/06/13

Ceisiadau i'r IMB yn ystod y cyfnod adrodd

COD	PWNC	BLWYDDYN
A	Llety	0
B	Dyfarniadau	1
C	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys crefydd)	2
D	Addysg / cyflogaeth / hyfforddiant	2
E1	Teulu / Ymweliadau gan gynnwys post a ffôn	2
E2	Cyllid / Tâl	6
F	Ymwneud â Bwyd / y Gegin	3
G	Ymwneud ag Iechyd	4
H1	Eiddo o fewn y sefydliad cyfredol	0
H2	Eiddo wrth drosglwyddo i sefydliad arall	2
H3	Ffreutur, cyfleusterau, siopa catalog, Argos	3
I	Ymwneud â dedfrydau. (Rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, newid categori etc)	2
J	Pryderon Staff / Carcharorion gan gynnwys bwlio	3
K	Trosglwyddiadau	1
L	Manion	4
	Cyfanswm nifer o Geisiadau i'r Bwrdd Monitro Lleol	35
	O'r cyfanswm – y nifer o Fynediadau Cyfrinachol oedd	1